

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

## CWRICWLWM I GYMRU – SICRHAU MYNEDIAD I'R CWRICWLWM LLAWN

Ionawr 2020 (v3)

# ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

## 1.1 Cefndir

### Sicrhau y gellir manteisio ar Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Fel y nodir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol yng Nghymru er mwyn galluogi pobl ifanc i gyrraedd safonau llythrennedd a rhifedd uwch, dod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Bydd y trefniadau newydd yn seiliedig ar degwch a rhagoriaeth ac yn helpu i feithrin dinasyddion hyderus, galluog a gofalgar. Hyn sydd wrth wraidd cyfraniad ein haddysg orfodol at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015) yn nodi problemau ymarferol a sylfaenol gyda'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol yng Nghymru, gan gynnwys:

- lefelau cyflawniad is nag y dylent fod (fel y dangoswyd gan PISA ac Estyn);
- adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2014 a ddaeth i'r casgliad bod y trefniadau asesu a gwerthuso presennol yn anfodddhaol o ran gwella perfformiad ymhlith cyfran uchel o bobl ifanc yng Nghymru;
- diffyg parhad o fewn addysg ac wrth bontio rhwng cyfnodau;
- profiad addysgol gwael i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3; a
- y ffaith nad yw cwricwlwm a luniwyd yn 1988 yn adlewyrchu'r byd y mae pobl ifanc yn byw ynddo erbyn hyn a goblygiadau byd sy'n newid ar yr hyn y mae angen i bobl ifanc ei ddysgu a sut.

O ganlyniad i hynny, mae angen sicrhau bod gan Gymru gwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif, ac sy'n amlinellu'r hyn y dylai dysgwyr ei wybod a'r sgiliau y dylent eu dysgu. Un o argymhellion craidd Dyfodol Llwyddiannus yw y dylai'r pedwar diben fod wrth wraidd ein system addysg er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;

- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Er y bydd gofynion statudol eraill a chanllawiau statudol i gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith, bydd cwricwlwm a arweinir gan ddibenion yn cynnig llawer mwy o ryddid a gallu i ymarferwyr gynnig cyfleoedd dysgu sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd y byddant yn eu hwynebu wrth dyfu'n hŷn ac yna wrth fyw a gweithio yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

Mae'r asesiad effaith integredig yn ymdrin â dau faes allweddol:

1. Yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
2. Newid enw Addysg Grefyddol.

#### Yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Yn y dull hwn a arweinir gan ddibenion, mae gan Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r pedwar diben a darparu addysg eang a chytbwys i'r graddau ein bod wedi cynnig y dylent fod yn ofynion statudol ar wahân. Gan gadw hyn mewn cof, rydym wedi bod yn adolygu'r elfen Hawl i Dynnu yn ôl yn y cwricwlwm presennol sy'n galluogi rhieni i dynnu eu plentyn yn ôl o Addysg Grefyddol ac addysg rhyw, a fydd wedi'i chynnwys o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddwyd y Cwricwlwm Gweddnewidiol: Papur Gwyn y Cwricwlwm ac Asesu. Ceisiwyd barn am y mater o gael yr hawl i dynnu yn ôl o'r cwricwlwm newydd, yn arbennig a ddylid ei gynnwys a beth ddylai ddigwydd pe na châi ei gynnwys. Roedd tua 89 y cant (1,421) o'r rhai a ymatebodd i'r Papur Gwyn o'r farn y dylid cadw'r hawl i dynnu yn ôl. Fodd bynnag, nid oedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynnig deddfwriaethol penodol mewn perthynas â'r hawl i dynnu yn ôl.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar y mater hwn, a oedd yn dangos bod gan bobl bryderon am y canlynol:

- Priodoldeb datblygiadol, ac na ddylai plant gael eu hamlygu i faterion nad ydynt yn barod amdanynt;
- Rôl / uchafiaeth y teulu o ran rhoi arweiniad ar y materion hyn;
- Y potensial am ddiffyg sensitifrwydd i safbwyntiau diwylliannol neu grefyddol gwahanol neu gydnabyddiaeth ohonynt;
- Y gallu i gynnig cyfleoedd i ddysgu mewn ffordd gynnil a sensitif.

Fodd bynnag, yn y byd cynyddol gymhleth hwn sy'n newid yn gyflym, mae angen i blant a phobl ifanc Cymru gael addysg gan y wladwriaeth<sup>1</sup> sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgu mewn ffordd feirniadol, amlblygiadol a datblygiadol briodol heb geisio gwthio syniadau mewn perthynas â'r materion a drafodir yn y pynciau hyn, ac mae ganddynt hawl i ddisgwyl hynny. Mae hyn yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar. Mae darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol o safon uchel yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel, parchu ei gilydd a meithrin cydberthnasau iach. Mae'r rhain yn werthoedd pwysig rydym am i bob person ifanc yng Nghymru eu datblygu er mwyn galluogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus i Gymru a'r byd ac yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ar y sail hon, credwn fod achos cryf sy'n seiliedig ar egwyddor dros warantu y gall pob dysgwr gael Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er mwyn i ddysgwyr allu elwa'n llawn ar gwricwlwm eang a chytbwys, rhaid iddynt allu manteisio ar bob rhan ohono, gan eu galluogi i wneud cynnydd o ran y pedwar diben.

Felly, credwn na ddylai'r cwricwlwm newydd gynnwys yr hawl i dynnu yn ôl ac, yn sgil yr ymatebion i'r Papur Gwyn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar 'Sicrhau mynediad i gwricwlwm llawn', gan gynnig na ddylai'r Cwricwlwm newydd gynnwys yr hawl i dynnu'n ôl, er mwyn cael sylwadau pellach ar oblygiadau hynny.

### Newid enw Addysg Grefyddol

Yn unol â'n cynnig i newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb<sup>2</sup> yn y cwricwlwm newydd er mwyn adlewyrchu'r ymarfer a'r dull gweithredu presennol yn y maes pwnc hwn yn well, rydym wedi bod yn ystyried yr enw Addysg Grefyddol.

Mae Addysg Grefyddol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o gredoau ysbrydol, athronyddol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn eu cymuned, ledled Cymru ac ym mhedwar ban byd. Rydym o'r farn y dylai enw'r pwnc adlewyrchu ystod lawn yr hyn a gaiff ei addysgu i ddysgwyr drwy'r maes pwnc hwn. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig newid yr enw er mwyn iddo adlewyrchu ymarfer addysgu yn y cwricwlwm newydd yn briodol, a dangos ehangder y pwnc drwy alluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth o gredoau crefyddol ac athronyddol, yn ogystal â chredoau a bydolygon eraill, gan gynnwys bydolygon anghrefyddol.

---

<sup>1</sup> h.y. ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin a ariennir

<sup>2</sup>Yr enw ar y pwnc hwn ar hyn o bryd yw "addysg rhyw", ond "Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion oedd y teitl a ddefnyddiwyd mewn canllawiau yn 2010. Rydym wedi cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau drafft sy'n defnyddio'r term "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb".

## **1.2 Hirdymor**

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas i fyd sy'n newid yn gyflym.

Mae'r hyn a ddysgir mewn Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwysig o ran cefnogi dysgwyr er mwyn iddynt allu ymdopi mewn cymdeithas gynyddol gymhleth.

Mae'r cynnig i beidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn y cwricwlwm newydd yn enghraifft o dderbyn rhywfaint o her a phwysau byrdymor er mwyn cefnogi'r nod hirdymor o sicrhau cymdeithas fwy cynhwysol.

## **1.3 Atal**

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol o oedran cynnar yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel, parchu ei gilydd a meithrin cydberthnasau iach. Bydd hyn o fudd i'w lles meddyliol, corfforol ac emosiynol ac felly'n arwain at oblygiadau pwysig o ran byw bywyd llwyddiannus fel oedolyn. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn cyfrannu at dorri sawl cylch negyddol drwy helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu: yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; yn gyfranwyr mentrus a chreadigol; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac yn unigolion iach a hyderus.

Mae Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol a'r cynnig i beidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn y cwricwlwm newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith atal drwy sicrhau bod dysgwyr yn dysgu am eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Bydd gallu cael gafael ar wybodaeth o ansawdd da a strategaethau i ddeall pwysau y gallant eu hwynebu yn eu paratoi'n well i wynebu'r pwysau hynny: o adnabod cydberthnasau iach a rhai nad ydynt yn iach i ddeall safbwyntiau pobl sydd â chredoau a gwerthoedd gwahanol iddyn nhw. Bydd hyn yn helpu i atal y goblygiadau negyddol a fyddai'n codi o ganlyniad i gydberthnasau ac ymddygiadau negyddol

Ceir amheuaeth a fyddai dysgwyr yn gallu cyflawni pedwar diben y cwricwlwm yn llawn, yn enwedig bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac yn unigolion iach a hyderus, os na chânt Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## **1.4 Integreiddio**

Mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar fwy o lawer o integreiddio rhwng pynciau a chreu cyfle i atgyfnerthu drwy ddull gweithredu gwahanol. Y bwriad yw y dylid integreiddio Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm ac mae peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn gwneud y nod hwn yn haws i'w gyflawni.

Bydd peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

Cymru ffyniannus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd peidio â thynnu dysgwyr yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhoi cyfle gwell i bob person ifanc sy'n gadael yr ysgol ddeall yn llawn bwysigrwydd parchu pob ffydd, crefydd a grŵp ac yn galluogi gweithlu'r dyfodol i fod yn oddefgar ac yn integredig, gan alluogi pobl ifanc i fod yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.</li> </ul>
Cymru gydnerth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfrannu at gydnerthedd cymdeithasol, ac mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn helpu dysgwyr i adnabod yr urddas a'r parch sy'n ddyledus i'r byd byw o'u cwmpas.</li> </ul>
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd sicrhau bod pob dysgwr yn cael Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel yn fuddiol i'w lles meddyliol, corfforol ac emosiynol.</li> </ul>
Cymru sy'n fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y polisi i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar y cwricwlwm newydd yn sicrhau y bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth am greddau ac agweddau gwahanol, ac yn dysgu i barchu eraill a'u trin ag urddas.</li> </ul>
Cymru o gymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw galluogi dysgwyr i ddatblygu'n unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas ac mae Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfrannu at y diben hwn drwy alluogi pob dysgwr i feithrin dealltwriaeth o amrywiaeth eang o ddiwylliannau a safbwyntiau athronyddol.</li> </ul>
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Drwy feithrin parch a dealltwriaeth, bydd sicrhau y gellir manteisio ar Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effaith ddiwylliannol gadarnhaol.</li> </ul>
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	<ul style="list-style-type: none"> <li>Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd; bydd sicrhau y gellir manteisio ar Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfrannu at y diben hwn.</li> </ul>

### 1.5 Cydweithio

Bydd y polisi i sicrhau y gellir manteisio ar Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effaith ar rieni, dysgwyr, ymarferwyr (mewn gwahanol ysgolion a lleoliadau), cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol ac Estyn. Yn ehangach, bydd hefyd yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau diwylliannol, addysg bellach ac addysg uwch, a busnesau.

Mae cydgynhyrchu wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y cwricwlwm, gydag Ysgolion Arloesi'n arwain y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, sy'n cynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- trafod goblygiadau posibl y cynnig hwn ag amrywiaeth o bobl â buddiant;
- cynnal ymgynghoriad Papur Gwyn, a oedd yn cynnwys cwestiynau am yr Hawl i Dynnu yn Ôl, gan gynnwys p'un a ddylid cadw'r hawl hon ac, os felly, a ddylid ei chynnal ar ffurf ddiwygiedig;
- ymgynghori ynghylch y canllawiau drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ym mis Chwefror 2019. Yn dilyn yr ymgynghoriad, roedd yn amlwg bod angen mireinio'r canllawiau ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth fanylach o ystyried natur sensitif ac arbenigol y pwnc, yr angen i'r canllawiau fod yn glir o ran yr hyn y bydd dysgwyr yn ei ddysgu, a'r angen i rieni allu ymgysylltu ag ysgolion.

Mae'n amlwg bod materion sensitif yn codi mewn perthynas ag Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac, o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm, dyma'r meysydd lle mae'r tensiwn rhwng rôl y wladwriaeth a rôl rhieni i addysgu plant a phobl ifanc ar ei fwyaf sensitif ac, o bosibl, ei fwyaf enbyd.

Wrth ddatblygu'r dull gweithredu arfaethedig ymhellach, bydd yn bwysig achub ar gyfleoedd i gydweithio ymhellach drwy alw ar gynrychiolwyr cymunedol, arbenigwyr a grwpiau eraill i archwilio'r materion a drafodir yn fanylach.

Mae'n werth nodi'r datblygiadau yn y meysydd polisi hyn mewn rhannau eraill o'r DU.

O ran Addysg Grefyddol, mae'r sefyllfa bresennol yn gyson â gweddill y DU – mae Addysg Grefyddol yn rhan statudol o'r cwricwlwm i bob disgybl o oedran ysgol gorfodol, ac mae gan eu rhieni yr Hawl i'w Tynnu'n Ôl o'r rhan hon yn llwyr neu'n rhannol.

Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n elfen orfodol o'r cwricwlwm ysgol i bob disgybl o oedran ysgol gorfodol, fel rhan o faes dysgu Datblygiad Personol a Chyd-ddealltwriaeth. Er nad oes unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol am yr Hawl i Dynnu yn Ôl, mae'r canllawiau'n nodi y dylid parchu unrhyw gais gan riant neu ofalwr i dynnu plentyn yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn llwyr neu'n rhannol, yn dilyn trafodaeth am effaith andwyol bosibl hynny. Yn yr Alban, mae addysg Cydberthynas, Iechyd Rhywiol a Magu Plant yn rhan o faes Iechyd a Lles y Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth. Fel yng Ngogledd Iwerddon, mae'r canllawiau'n rhoi'r hawl i rieni dynnu eu plentyn yn ôl o elfen "iechyd rhywiol" addysg Cydberthynas, Iechyd Rhywiol a Magu Plant. Yn wahanol i Ogledd Iwerddon, mae

canllawiau'r Alban yn nodi y gall plant oedran ysgol uwchradd benderfynu tynnu'n ôl (yn dibynnu ar eu haeddfedrwydd a'u dealltwriaeth), a rhaid i'r penderfyniad hwn hefyd gael ei barchu.

Yn Lloegr, mae diwygiadau diweddar yn golygu y bydd addysg cydberthynas, o fis Medi 2020, yn orfodol i bob disgybl cynradd, ac y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol i bob disgybl uwchradd. Ar lefel uwchradd, mae gan rieni yr hawl i ofyn am i'w plentyn gael ei dynnu yn ôl o bob addysg rhyw a ddarperir fel rhan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol. Dylid cymeradwyo pob cais o'r fath, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai penaethiaid gymeradwyo ceisiadau gan rieni i dynnu disgyblion cynradd yn ôl o unrhyw addysg rhyw, a hynny'n awtomatig. Nid oes unrhyw hawl i dynnu yn ôl o addysg cydberthynas (er nad yw'r canllawiau'n nodi'r naill na'r llall). Maent hefyd yn nodi y gall plentyn, dri thymor cyn iddo droi'n 16 oed, ddewis cael addysg rhyw yn hytrach na chael ei dynnu yn ôl.

## **1.6 Cyfranogiad**

Mae'r cwricwlwm cyfan wedi cael ei lunio drwy gydgyngorchu. Ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch y meysydd polisi hyn (Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) ond mae'r cynnig polisi hwn ar yr hawl i dynnu yn ôl yn arbennig o heriol am ei fod yn ennyn barn gref ac ni fydd pawb yn cytuno ag ef. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu bod cyfranogiad parhaus yn bwysicach fyth.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom gynnal cyfres o grwpiau ffocws i ystyried y materion hyn gyda phlant a phobl ifanc, rhieni ac ymarferwyr.

Gwnaethom gynnal ymgynghoriad wyth wythnos ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019 ar gynigion i ailenwi Addysg Grefyddol a pheidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd i Gymru, er mwyn ystyried barn a safbwyntiau pobl am y cynigion. Un o nodau penodol yr ymgynghoriad oedd ceisio barn yr ymatebwyr am oblygiadau ymarferol y cynnig i sicrhau bod pob dysgwr, rhiant a gofalwr, ac ysgolion yn ehangach, yn gallu manteisio ar y cwricwlwm newydd.

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad y byddai eu hangen petai'r dull gweithredu a nodwyd yn y cynigion yn cael ei fabwysiadu. Nod hyn oedd ystyried y camau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru a'r gymuned addysg eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr.

Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd i'r ymatebwyr fynegi eu barn a'u safbwyntiau am y cynigion, gan gynnwys ar-lein, drwy e-bost a thrwy'r post, ac yn bersonol, a chafwyd dros 1,600 o ymatebion. Comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i ddadansoddi'r ymatebion. Nod y gwaith dadansoddi oedd deall a mapio'r amrywiaeth o farn a safbwyntiau a oedd gan yr ymatebwyr am Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Hefyd, estynnwyd gwahoddiad i blant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, fynd i grwpiau ffocws a sefydlwyd fel rhan o'n gweithgareddau ymgysylltu. Nod y grwpiau hyn oedd ystyried eu barn yn fanylach. Cafodd y grwpiau ffocws ar gyfer plant a phobl ifanc eu trefnu a'u cynnal gan Dynamix, sefydliad ymchwil arbenigol sy'n defnyddio dulliau creadigol a chyfranogol i ystyried barn pobl.

Cafodd y grwpiau ffocws ar gyfer rhieni a gofalwyr eu trefnu a'u cynnal gan staff Wavehill. Cynhaliwyd y rhain eu cynnal mewn ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion â nodweddion crefyddol, a chyda rhieni plant a phobl ifanc o gefndiroedd neu ffydd penodol. Cynhaliwyd wyth grŵp i gyd, lle cynigiodd 65 o rieni a gofalwyr eu barn a'u safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc mewn pedair ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, ac un ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd grwpiau nodweddion gwarchoddedig yn cynnwys ysgolion â nodweddion crefyddol ac un ysgol a oedd yn addysgu llawer o blant a phobl ifanc o'r gymuned teithwyr.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol, nododd Llywodraeth Cymru nifer o gohortau (grwpiau Ffydd a chymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru) lle y byddai angen gwneud gwaith ymgysylltu un i un er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn meithrin dealltwriaeth lawn a chywir o farn cymunedau gwahanol am y cynigion.

Cafodd y gwaith ymgysylltu ei wneud gan Re:cognition. Nod y gwaith hwn oedd mynd at wraidd y cymunedau a nodwyd drwy arweinwyr cymuned, porthorion ac arweinwyr ffydd, er mwyn meithrin dealltwriaeth fanwl o'u hymatebion, argraffiadau ac ystyriaethau o ran y pwnc hwn o safbwyntiau diwylliannol a chrefyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyfathrebu'n glir er mwyn hysbysu pobl sy'n byw yng Nghymru am ein gweledigaeth o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael cyfle teg i gael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan mewn dysgu, cael budd ohono a'i fwynhau. Hefyd, nod y gwaith ymgysylltu â grwpiau ffydd a chymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig oedd nodi rhwystrau a phrofi ymyriadau posibl er mwyn helpu i ennyn diddordeb rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd a chymunedau allweddol mewn unrhyw waith ymgysylltu yn y dyfodol, mewn perthynas â'r materion hyn a'n cyfeiriad polisi ar gyfer y dyfodol.

Un o'r themâu allweddol a nodwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn fras a'r rhai a oedd yn ei wrthwynebu, oedd pwysigrwydd egluro a chyfleu'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu mewn Addysg Grefyddol ac, yn enwedig, mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn, pe bai'r cynigion yn cael eu cyflwyno, y byddai'n bwysig sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am gynnwys y gwersi hyn a phryd y byddent yn cael eu cynnal.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn parhau â rhaglen o waith ymgysylltu ystyrion a pharhaus ag ysgolion, rhieni a gofalwyr, dysgwyr, grwpiau ffydd gwahanol a chymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn enwedig ynglŷn â'r hyn y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd a'r ffordd y caiff y cynnwys hwnnw ei addysgu. Byddwn yn creu Grŵp Cynnwys Cymunedau Ffydd/Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, er mwyn datblygu sail dystiolaeth sy'n cynnwys profiad ymarferol a barn a dyheadau rhanddeiliaid allweddol.

Diben y Grŵp hwn yw:

- galluogi grwpiau ac unigolion â buddiant i gyfrannu at y broses o ddatblygu'r cynigion mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yng Nghymru;
- ystyried gwahanol agweddau grwpiau crefyddol a chymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a nodi dulliau gweithredu posibl ar lefel weithredol, yn benodol sut y bydd angen i rhanddeiliaid perthnasol ymddwyn yn y cynigion ar gyfer gofynion y cwricwlwm newydd;
- meithrin dealltwriaeth a rennir o'r ffordd y caiff y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm ac, yn benodol, y cynigion mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yng Nghymru, eu rhoi ar waith yn ymarferol;
- helpu i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth gywir;
- meithrin dealltwriaeth o'r gofynion o ran gwybodaeth i ysgolion, rhieni a chymdeithas ddinesig.

## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Sut mae pobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm wedi cael ei wneud drwy fodel o gydgyhyrchu â chynrychiolwyr o'r system addysg yng Nghymru (Estyn, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru ac ymarferwyr). Wrth wraidd y broses hon mae rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Arloesi sydd wedi ymgysylltu â'u dysgwyr a'u hysgolion clwstwr ac ysgolion rhwydwaith er mwyn casglu safbwyntiau drwy gydol y broses. Hefyd, mae rhaglen helaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau yn mynd rhagddi. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n ffurfiol ynghylch y cynigion ar gyfer Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd fel rhan o'r ymgynghoriad Papur Gwyn (roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiynau am yr hawl i dynnu yn ôl) ac ar y canllawiau drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad pellach er mwyn meithrin dealltwriaeth lawn o'r amrywiaeth o safbwyntiau ar oblygiadau cynigion yr ymgynghoriad. Gwnaethom gynnal y gweithgareddau canlynol yn ystod yr ymgynghoriad a bu'r sylwadau a'r ymatebion yn help i lywio cyfeiriad y polisi:

- Grwpiau ffocws ar gyfer rhieni a gofalwyr. Cynhaliwyd wyth grŵp ffocws ledled Cymru, lle cynigiodd 65 o rieni a gofalwyr eu barn a'u safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc mewn pedair ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, ac un ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cynnwys ysgolion â nodweddion crefyddol ac un ysgol a oedd yn addysgu llawer o blant a phobl ifanc o'r gymuned teithwyr.
- Grwpiau ffocws ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ledled Cymru, yn ogystal ag ymgynghoriad â phlant a phobl ac arolwg ar-lein, gan gynnwys sylwadau o ddigwyddiad Senedd Ieuenctid. Cynhaliwyd 20 o grwpiau ffocws ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 8 a 28 Tachwedd 2019, a hynny mewn deg ysgol Gynradd, wyth ysgol uwchradd a dau grŵp nodweddion gwarchodedig. Rhoddodd cyfanswm o 279 o gyfranogwyr adborth drwy'r grwpiau ffocws a'r arolwg ar-lein, a gafodd ei ddadansoddi.
- Gweithgareddau ymgysylltu un i un ar gyfer nifer o grwpiau Ffydd a grwpiau cymunedol er mwyn cael eu barn am y cynigion o'u safbwyntiau personol a safbwyntiau eu cymunedau.

Mae'r hyn y bydd Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei gynnwys o fewn y cwricwlwm newydd yn cael ei gydgyhyrchu. Ar gyfer Addysg Grefyddol, mae fframwaith ategol newydd yn cael ei ddatblygu gan grŵp o ymarferwyr, Arloeswyr, academyddion, cynrychiolwyr o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a Phanel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol. Mae ein dull gweithredu ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn

seiliedig ar argymhellion gan Banel o Arbenigwyr, sy'n cynnwys academyddion sy'n arbenigo mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, darparwyr gwasanaethau ac athrawon â chyfrifoldebau am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## **7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Byddai'r effeithiau uniongyrchol mwyaf arwyddocaol ar rieni a gofalwyr dysgwyr yn y cwricwlwm newydd. Ar nodyn cadarnhaol, byddai eu plant yn gallu manteisio ar gwricwlwm sy'n eu galluogi i wneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben mewn system addysg sydd wedi'i dylunio i chwarae ei rhan yn y gwaith o greu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefol, gan gyfrannu i'r eithaf at nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar nodyn negyddol, ni fyddent yn gallu tynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol nac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd. Un maes sylweddol o bryder o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yr ymdeimlad nad oedd y cynigion yn ystyried hawliau rhieni a gofalwyr.

Byddai hefyd yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr a allai fel arall gael eu tynnu yn ôl o ysgolion a gynhelir gan eu rhieni a'u gofalwyr. Byddai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yn dod yn elfennau gorfodol o'r cwricwlwm newydd. Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu'r gwersi hyn os bydd eu rhieni'n eu tynnu yn ôl. Gall hynny fod yn groes i'w dymuniadau mewn rhai achosion, ond mae'n rhesymol tybio y byddai'r dysgwr, mewn rhai achosion, yn cytuno â phenderfyniad ei riant. Fodd bynnag, mae'r polisi sy'n cael ei roi ar waith yn golygu y byddai dysgwyr yn elwa'n llawn ar addysg eang a chytbwys drwy allu manteisio ar bob rhan o'r cwricwlwm.

## **7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion Llesiant a'r saith nod Llesiant;
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r pedwar diben, sef y man cychwyn ar gyfer yr holl ddysgu ac addysgu a ategir gan ddeddfwriaeth, yn cyfrannu at amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu plant a phobl ifanc: yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac yn unigolion iach a hyderus. Mae gan Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol ran bwysig i'w chwarae o ran galluogi dysgwyr i gyflawni'r dibenion hyn, a sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau Llesiant.

## **7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Gwnaethom gyhoeddi asesiad effaith cychwynnol fel rhan o ymgynghoriad a oedd yn gofyn am safbwyntiau ar oblygiadau'r cynnig.

Rydym wedi ystyried yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a'r gwaith ymgysylltu â chymunedau yn ofalus, ac mae nifer o gamau gweithredu wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith ehangach i Ddiwygio'r Cwricwlwm er mwyn cefnogi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol statudol pan gaiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno yn 2022. Ymhlith y camau gweithredu hyn mae:

- ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dylai'r ddeddfwriaeth nodi mewn Cod y dysgu craidd, er mwyn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a thryloywder i rieni. Darpariaeth glir mewn canllawiau o ran y pynciau i'w cynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan gynnwys, oedran/priodolrwydd datblygiadol.
- Ar gyfer Addysg Grefyddol, datblygwyd ymgynghoriad ar fframwaith i gefnogi'r addysgu a'r dysgu gan ddefnyddio dull cydgynhyrchu wedi'i ategu gan gynllun clir a rhagweithiol ar gyfer cyfathrebu parhaus â rhieni a chymunedau a grwpiau â buddiant ehangach. Bydd y fframwaith yn amlinellu'r ffordd y mae Addysg Grefyddol yn ffurfio rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd yn ystyried egwyddorion ehangach y cwricwlwm, gan gynnwys camau cynnydd.
- Rhaglen barhaus o waith ymgysylltu â chymunedau er mwyn chwalu unrhyw fythau am Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys sefydlu Grŵp Cynnwys Cymunedau Ffydd/Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys aelodau o grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd er mwyn cyfrannu at y gwaith o gydgynhyrchu'r canllawiau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys ymarferwyr a sefydliadau ffydd, ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu â chymunedau.
- Treialu'r dull gweithredu newydd mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion cyn 2022, a rhannu'r profiad hwnnw.

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: [Safonau.Standards@gov.wales](mailto:Safonau.Standards@gov.wales)):**

**01/09/2019**

2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Yr unig gysylltiad rhwng y polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yw y bydd yr un mor berthnasol i leoliadau cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog yn y system addysg a gynhelir â lleoliadau cyfrwng Saesneg.

**3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:**

Nodwyd y gallai optio allan o'r gwersi hyn olygu bod dysgwyr yn cael canran lai o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd fawr ddim effaith ar yr iaith. Nododd un ymateb y byddai cynnwys unrhyw agweddau ar y Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ceir mater ar wahân yn ymwneud â sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol priodol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar yr un pryd. Fodd bynnag, eir i'r afael â hyn drwy'r gwaith datblygu ehangach ar y cwricwlwm newydd ac ni fydd y polisi yn effeithio'n uniongyrchol arno er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol.